Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

YMUNWCH Â NI

Cenhadaeth

"Darparu Cartrefi a Gwasanaethau Rhagorol, Datblygu Cymunedau Cynaliadwy Lle Mae Pobl yn Dymuno Byw"

Gwerthoedd

- Parch
- Rhagori
- Cyflawni
- Cydweithredu
- Hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg
- Canolbwyntio ar denantiaid
- Arloesi
- Cynnal cymunedau lleol

PAM YMUNO?

Mae Grŵp Cynefin yn atebol i'r gymuned leol drwy aelodau'r Gymdeithas. Bydd Cyfarfod Blynyddol o'r aelodau yn dewis rhai i wasanaethu ar y Bwrdd Rheoli.

Rydym yn chwilio am unigolion a sefydliadau i ymuno â ni fel ein bod yn fwy atebol i'r cymunedau lleol.

PWY ALL YMUNO?

- Unigolion
- Grwpiau, mudiadau a sefydliadau lleol megis Cynghorau Cymuned a Thref
- Tenantiaid

Ni all neb sy'n gweithio nac yn gwerthu gwasanaeth i Grŵp Cynefin fod yn aelod.

BETH YW'R GOST?

Am dâl aelodaeth o £1.00 yn unig gall unigolion a mudiadau lleol ymuno â Grŵp Cynefin. Bydd pob cyfranddaliwr yn:

- derbyn copi o Adroddiad Blynyddol a Rheolau Cofrestredig y Gymdeithas a gwahoddiad i'r Cyfarfod Blynyddol neu Gyfarfod Cyffredinol
- gweithredu, bob amser, er budd y gymdeithas ac er budd y gymuned, fel gwarcheidwaid amcanion y gymdeithas.

SUT MAE YMUNO?

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â'r Swyddfa Gofrestredig, Tŷ Silyn, Penygroes, Caernarfon, LL54 6LY

Ffôn: 0300 111 2122 **Gwefan: grwpcynefin.org** **E-bost: post@grwpcynefin.org**